Min y Traeth

Bwletin i rieni Ysgol Eifionydd

Haf 2018

www.ysgoleifionydd.org

Rhifyn : 7

Gair gan y Pennaeth: Hoffwn ddymuno gwyliau braf i chi gyd yn dilyn tymor hynod o brysur yma yn Ysgol Eifionydd. Cynhaliwyd nifer fawr o weithgareddau yn ystod y tymor gan gynnwys taith lwyddiannus yr Adran Ddaearyddiaeth i Sorrento, diwrnod athletau, Noson Wobrwyo a'r Prom, diwrnodau Pontio Cynradd ac wythnos o Brofiad Gwaith.

Cafwyd ymweliad gan arolygwyr Estyn ac adroddwyd ar gryfderau'r ysgol yn arbennig o ran lles, agweddau at ddysgu, gofal, cymorth ac arweiniad yn ogystal ag amlygu meysydd penodol i ni barhau i wella arnynt o ran addysgu a phrofiadau dysgu.

Byddwn yn ffarwelio eleni gyda Mr. Medwyn Williams, Mrs. Sharon Roberts a Mr. Ifer Jones a hoffwn ddymuno ymddeoliad hapus iddynt gan ddiolch am yr holl flynyddoedd o wasanaeth i'r ysgol. Hoffwn hefyd ddymuno pob lwc i Mr. Gareth Hughes yn dilyn ei ddyrchafiad. Yn dilyn eu hymadawiad hoffwn groesawu Mrs. Mary Baillot yn bennaeth newydd ar yr Adran Fathemateg. Mae Mrs. Baillot yn gyn ddisgybl Ysgol Eifionydd. Fe fydd TGAU Cerddoriaeth yn cael ei ddarparu gan Mr. Emyr Rees tiwtor Safon Uwch o Goleg Meirion Dwyfor tra bydd Miss Llio Dudley yn darparu Cerdd i flynyddoedd 7 i 9. Yn ffodus iawn i'r ysgol mae gan Miss Dudley Radd Anrhydedd Perfformio mewn Cerdd a Drama. Rydym hefyd yn ffodus fod Mrs. Ann Roberts am weithredu fel Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol gyda chefnogaeth Mrs. Larua Hughes. Mae Mrs Roberts eisoes yn gweithio yn agos gyda nifer o'r disgyblion.

Gwyliau hapus a diogel i chi gyd!

Dewi Bowen

Dyddiau Pwysig

- **Ysgol yn ail agor dydd Mawrth, 4/09/18.**
- **Fforwm Rhieni - 2/10/18, 6.45.**
- **HMS – 5/10/18.**
- **Noson Agored Bl.6 – 23/10/18.**

Defnydd o'r Sgrin Werdd

Dyma Nathan Jones ac Adam Taylor. Mae Nathan wedi bod yn perffeithio y defnydd o dechnoleg sgrin werdd i greu newyddion realistig. Bydd Nathan yn helpu disgyblion Bl.9 yn y gwersi Cymraeg.

Adran Y Gymraeg

Bore Gwener yr ail ar hugain o Fehefin treuliodd rhai o ddisgyblion blwyddyn saith awr ddifyr yng nghwmni yr hanesydd Mr. John Dilwyn Williams. Cawsant hanes yr ifaciwis a fu yn aros ym Mhorthmadog yn ystod Yr Ail Ryfel Byd a chael cyfle i weld rhai o greiriau'r cyfnod.



Taith Blwyddyn 10 o Borthmadog i Bompeii

Unwaith yn rhagor eleni yn fintai o 34 disgybl cynhyrfus a phedwar aelod o staff brwdfrydig, yn hwyrol ar Orffennaf 2^{ll}, roedd ein gwibdaith ar gychwyn - taith oedd â ffocws Ddaearyddol ei naws a ddenodd ein haelodau TGAU Daearyddiaeth ond hefyd ymunwyd â ni gan gyd-ddisgyblion eraill oedd â diddordeb mewn casglu profiadau, gweld rhyfeddodau, blasu diwylliant a chyd-fwynhau, hyn oll ymysg cyfeillion. Taith i fro Sorrento, yr Eidal - ardal llosgfynydd Vesuvius a'i chrater powlen unigryw; Herculaneum a Phompeii - dau o safleoedd anheddol yr oes a fu (79 O.C.) sy'n llechu yng nghysgod Vesuvius ond fe'i dinistriwyd ill dwy gan lif pyroclastig dieflig yn agos i 2000 o flynyddoedd yn ôl; ynys hudolus, rhamantus Capri gan ei fordwyo i fwynhau ei hysblander daearyddol a gwerthfawrogi ei bwâu a'i staciau niferus a diweddu'r daith gydag ymweliad â phorthladd Sorrento ei hun gyda'i strydoedd cul, hynafol a'i rhodfeydd siopa moethus. Gwleddasom mewn bwytai niferus a blasu ei phrydau amrywiol o'r pasta i'r pitsa i'r ham Parma - hyfryd.



Dychwelsom wedi antur o bedwar niwrnod o brofiadau a golygfeydd i'w storio ar silff y cof am amser i ddod. Profodd pob un ohonom antur mewn heulwen crasboeth a throchfa yn y pwll nofio yn nosweithiol i oeri a chwerthin ymysg ffrindiau. Taith gofiadwy, bleserus.

Fel rhan o'r cynllun anwytho o'r Cynradd i'r Uwchradd mae'r Cyngor Ysgol wedi bod yn ymweld ag ysgolion cynradd y dalgylch i siarad gyda disgyblion Blwyddyn 6. Roedd disgyblion Bl.6 yn cael yr hawl i holi'r Cyngor Ysgol am unrhyw bryderon.

Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd

Bu criw o flwyddyn 8 wrthi'n brysur yn dylunio Logo ar gyfer Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd sydd yn brosiect gan y Cyngor i sicrhau dilyniant cadarn i'r Siarter Iaith sy'n cael ei gweithredu yn yr ysgolion cynradd. Arweinydd y Strategaeth yw Mrs. Carys Lake. Bu Mrs. Lake draw yn cael sgwrs hefo'r disgyblion a lluniwyd Logo ar gyfer y Strategaeth sy'n gyfuniad o nifer o syniadau gan y disgyblion. Hefyd dewiswyd disgyblion o Ysgol Eifionydd a disgyblion o'r Ganolfan Iaith uwchradd ar gyfer y llun fydd yn glawr i'r Strategaeth Iaith.

Noson Wobrwyo a Prom Bl.11

Nos Wener, Mehefin 15fed cynhaliwyd noson wobrwyo flynyddol Ysgol Eifionydd yng Nghlwb Golff Porthmadog, Morfa Bychan. Yn ôl yr arfer cyflwynwyd gwobrau ar ddechrau'r noson ac yna mwynhawyd gwledd a disgo i ddilyn. Yr oedd pob un o'r disgyblion yn werth eu gweld a phawb wedi mwynhau yn arw. Diolch o galon i bawb fu o gymorth i sicrhau llwyddiant y noson arbennig yma sy'n benllanw i gyfnod Bl.11 yn yr ysgol.



Gwobrwyo Llwyddiant

Yn unol â Chynllun Gwobrwyo'r ysgol cafodd y disgyblion hynny sydd wedi llwyddo i gasglu naw hwyl yn ystod y flwyddyn daith i Cineworld, Cyffordd Llandudno. Roedd y daith yn dathlu llwyddiant y disgyblion hynny o flynyddoedd 7, 8 a 9 sydd wedi gwneud yn ardderchog o ran parch, prydlondeb ac ymdrech trwy gydol y flwyddyn gan gynnwys disgyblion sydd wedi llwyddo i gael 100% presenoldeb. Da iawn chi.

Ar fore Gwener, 6ed o Orffennaf fe wnaeth Elin Roberts, Blwyddyn 8 gyda chefnogeaeth Efa Jones, Emma Buckley, Chloe Fensome a Morgan Poppy Lane drefnu stondin gwerthu cacennau yng nghyntedd yr ysgol i gasglu arian tuag at Little Princess Trust. Llwyddodd y genod i godi £80 tuag at yr elusen yma. Da iawn chi genod.

Gallwch weld mwy o luniau o lwyddiannau'r disgyblion drwy fynd i www.ysgoleifionydd.org

Min y Traeth Summer 2018

Ysgol Eifionydd Parents' Bulletin

www.ysgoleifionydd.org

Issue : 7

Ysgol Eifionydd Porthmadog

A few words from the Headteacher: I would like to wish you all a wonderful holiday after a very busy term here at Ysgol Eifionydd. There were a large number of activities during the term including the successful Geography trip to Sorrento, the Sports Day, the Awards Evening and Prom, the primary transition days and a week of Work Experience.

Estyn inspectors visited the school and found many strengths, particularly in terms of wellbeing, attitudes to learning, care, support and guidance as well as highlighting specific areas for us to continue to improve within teaching and learning experiences.

We will be saying farewell to Mr. Medwyn Williams, Mrs. Sharon Roberts and Mr. Ifer Jones at the end of the year and I would like to wish them all a happy retirement and thank them for all the years of service at the school. I would also like to wish Mr. Gareth Hughes good luck following his promotion.

We will be welcoming Mrs Mary Baillot as the new head of the Maths Department. Mrs. Baillot is a former pupil of Ysgol Eifionydd. GCSE Music will be provided by Mr. Emyr Rees an A Level tutor from Coleg Meirion Dwyfor whilst Miss Llio Dudley will provide Music lessons for Years 7 to 9.

Fortunately for the school, Miss Dudley has an Honours Degree in Performing in Music and Drama. We are also lucky that Mrs. Ann Roberts will fulfil the role of the Additional Learning Needs Co-ordinator with the support of Mrs. Laura Hughes. Mrs. Roberts already works closely with many of the pupils.

Happy and safe holidays to you all.

Dewi Bowen

Important Dates

- **School re-opens – Tuesday, 4/09/18.**
- **Parents' Forum – 2/10/18, 6.45.**
- **INSET – 5/10/18.**
- **Year 6 Open Evening – 23/10/18.**

Use of the Green Screen

Here is Nathan Jones and Adam Taylor. Nathan has been perfecting the use of green screen technology to create a realistic news report. Nathan will be helping year 9 pupils in Welsh lessons.



Welsh Department

On Friday 21st of June some year 7 pupils spent an interesting hour in the company of the historian Mr. John Dilwyn Williams. They were given the history of the evacuees that stayed in Porthmadog during World War II and also had the opportunity to see some of the periodicals from that time.



Year 10 Tour from Porthmadog to Pompeii

Once again this July 34 enthusiastic pupils and four members of staff began a guided Geographical trip for GCSE Geography and some other pupils. The trip awarded a wealth of experiences culture and enjoyment amongst friends. A trip to Sorrento, Italy visiting Vesuvius volcano and its unique bowl crater; Herculaneum and Pompeii, Capri's fascinating island before ending the trip with a visit to the port of Sorrento itself with its narrow, ancient streets and luxurious shops. We visited numerous restaurants and tasted a variety of meals from pasta to pizza to Parma ham. A memorable, enjoyable journey.

As part of the Induction scheme from Primary to Secondary, members of the School Council has been visiting catchment primary schools to talk to year 6 pupils. Year 6 pupils were given the opportunity to ask the School Council about any concerns they may have.

Gwynedd Secondary Language Strategy

Pupils from Year 8 have been busy designing a Logo for the Gwynedd Secondary Language Strategy which is a project by the council to ensure a sound continuity of the Language Charter implemented in the primary schools. The strategy leader is Mrs. Carys Lake and she came to talk to the pupils which resulted in a logo that combined a number of the pupil's ideas. Pupils from Ysgol Eifionydd and pupils from the Secondary Language Centre were also selected for the photo for the cover of the Language Strategy.

Prize Giving and Prom Bl.11

On Friday, June 15th, Ysgol Eifionydd's annual awards evening was held at Porthmadog Golf Club, Morfa Bychan. Awards were presented at the beginning of the evening followed by a buffet and disco. All the pupils looked fantastic and everyone thoroughly enjoyed themselves. Thank you very much to everyone who helped make this a successful special evening for Year 11 to celebrate the end of their school career.

Rewarding Success

In accordance with the school's Award Scheme, pupils who have managed to collect nine sails during the year had a trip to Cineworld, Llandudno Junction. The tour celebrated the success of those pupils from year 7, 8 and 9 who have been excellent throughout the year in terms of respect, punctuality and effort as well as those who had 100% attendance. Well done.

On Friday, July 6th, Elin Roberts, Year 8 supported by Efa Jones, Emma Buckley, Chloe Fensome and Morgan Poppy Lane organised a cake selling stand in the school foyer to collect money towards Little Princess Trust. The girls managed to raise £80 towards this charity. Well done.

You can see more pictures of the pupils' successes by visiting www.ysgoleifionydd.org